# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y_Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2020

Amser y cyfarfod: 11.00

## 283(v6)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### Datganiadau ar Srebrenica

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau]

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I'w ateb gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

**Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gefnogaeth fydd ar gael i'r celfyddydau yng Nghymru ar ôl i Lywodraeth Prydain gyhoeddi pecyn i gefnogi'r sector ymdopi ag effeithiau Covid-19?

**I'w ateb gan Gweinidog yr Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**

**Carwyn Jones (Pen-y-bont):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn dilyn adroddiadau bod Ineos yn ailystyried ei benderfyniad i adeiladu ffatri newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

## 6 Datganiad gan y Weinidog Addysg: Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

(60 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Ffermio Cynaliadwy: dyfodol y gefnogaeth i amaethyddiaeth

(45 munud)

## 8 Dadl y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Effaith Covid-19 ar Chwaraeon

(30 munud)

**NDM7344** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith yr achosion o Covid-19 ar chwaraeon, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mehefin 2020.

## 9 Dadl y Pwyllgor Deisebau - Deiseb P-05-967 -Annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru

(30 munud)

**NDM7343** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-967 Annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru' a gasglodd 5,790 o lofnodion.

P-05-967 Annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Covid-19 a Thrafnidiaeth

(60 munud)

**NDM7345** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu llacio'r cyfyngiadau diweddar ar deithio yn ystod coronafeirws.

2. Yn cydnabod effaith andwyol y cyfyngiadau teithio blaenorol ar berthnasoedd personol, iechyd meddwl a lles pobl, a manwerthwyr.

3. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i weithredwyr bysiau yng Nghymru yn ystod y pandemig coronafeirws.

4. Yn mynegi siom bod Llywodraeth Cymru wedi peidio â chefnogi cwmnïau hedfan i hedfan o Faes Awyr Caerdydd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) diystyru'r angen i gyflwyno gofynion cwarantin i breswylwyr sy'n teithio i Gymru o'r tu mewn i'r Ardal Deithio Gyffredin;

b) mynd ati ar frys i adolygu a chynyddu'r cymorth sydd ar gael i weithredwyr bysiau yng Nghymru, er mwyn eu galluogi i gynyddu amlder a chapasiti gwasanaethau bysiau i bobl Cymru;

c) hyrwyddo'r broses o sefydlu llwybrau newydd o Faes Awyr Caerdydd i gyrchfannau diogel ledled y byd er mwyn ei helpu i lamu yn ôl o'r pandemig coronafeirws.

**Gwelliant 1** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi nad yw Coronafeirws wedi diflannu er gwaethaf y ffaith bod y trosglwyddiad o fewn cymunedau wedi lleihau yn sgil y mesurau sydd wedi'u cyflwyno. Mae hyn yn cyfiawnhau dull gofalus Llywodraeth Cymru o gydbwyso'r peryglon i iechyd y cyhoedd â pheryglon economaidd, cymdeithasol ac eraill, gan gynnwys teithio.

2. Yn cydnabod y pwysau sylweddol y mae'r Coronafeirws wedi'i roi ar gyllid Llywodraeth Cymru, a heb hyblygrwydd ychwanegol gan Lywodraeth y DU, mae buddsoddiad uwch mewn un maes, fel iechyd, cymorth i fusnesau neu drafnidiaeth yn golygu bod llai o gyllid ar gael ar gyfer meysydd eraill.

3. Yn croesawu’r pecyn sylweddol o gymorth brys sydd wedi’i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru er mwyn achub cwmnïau bysiau a threnau yng Nghymru yn ystod y pandemig.

4. Yn cydnabod swyddogaeth bwysig Maes Awyr Caerdydd yn ystod yr argyfwng, gan helpu i gludo cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol i Gymru.

5. Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru:

a) gyda llywodraethau eraill datganoledig er mwyn ystyried dull ar draws y pedair gwlad ar gyfer codi cyfyngiadau teithio rhyngwladol;

b) gyda chwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol er mwyn ystyried cynyddu gwasanaethau mewn modd priodol a rheoli hyn mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol; ac

c) gyda Maes Awyr Caerdydd er mwyn ystyried llwybrau teithio newydd a diogelu ei ddyfodol fel rhan o system trafnidiaeth gyhoeddus integredig ar draws Cymru, a hynny er gwaethaf gwrthwynebiad parhaus gan Lywodraeth y DU mewn maes polisi sydd wedi’i gadw i raddau helaeth er mwyn sicrhau bod meysydd awyr rhanbarthol oll yn cael eu trin yn yr un modd.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Siân Gwenllian (Arfon)

Dileu pwynt 5(a) a rhoi yn ei le:

'cytuno i sefydlu pontydd awyr i wledydd eraill pan fydd yn ddiogel gwneud hynny a chadw trefniadau teithio o dan adolygiad parhaus; '

**Gwelliant 3** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

'sicrhau bod gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol ar bob math o drafnidiaeth gyhoeddus; '

## 11 Cyfnod pleidleisio

## 12 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

(60 munud)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.68, mae'r Llywydd wedi penderfynu nad yw'r Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn gofyn am benderfyniad ariannol.

Mae'r Llywydd wedi ystyried y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 yn unol â Rheol Sefydlog 26.72, ac mae wedi penderfynu nad yw effeithiau unrhyw un o'r gwelliannau, neu'r gwelliannau oll, os cytunir arnynt, yn gofyn am benderfyniadau ariannol.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol**

1, 3, 2

**2. Pwerau arolygu**

4, 5, 6, 7, 8, 9

**Dogfennau Ategol**

Y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 10.00, Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2020

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 03/07/2020 i'w hateb ar 08/07/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ55438

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am leihau'r risg o heintiadau Covid-19 mewn ffatrïoedd a lleoliadau caeedig eraill?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ55432

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu ei chanllawiau ar y defnydd o orchuddion wyneb gan aelodau o'r cyhoedd?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

3 OQ55436

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith Covid-19 ar yr economi yng Nghanol De Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OQ55414

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd pe bai ail don o Covid-19 yn digwydd dros gyfnod y gaeaf?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5 OQ55437

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailagor y sector dwristiaeth yng ngogledd Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OQ55424

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ein diweddaru am drafodaethau’r Llywodraeth ynglyn a’r 94 swydd sydd dan fygythiad yn ffactri Northwood Hygiene Products ym Mhenygroes yn etholaeth Arfon?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

7 OQ55435

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y grant bloc diweddaraf gan Lywodraeth y DU?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

8 OQ55434

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd gwaelodol sydd wedi gwneud rhai dinasyddion yn fwy agored nag eraill i Covid-19?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ55410

**(e)**

Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r cyswllt rhwng Covid-19 a gordewdra?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

10 OQ55433

**(e)**

Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau diogelwch gweithleoedd yn ystod y pandemig?

**Leanne Wood** *Rhondda*

11 OQ55439

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

12 OQ55409

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth ar gyfer cartrefi gofal yng ngoleuni Covid-19?

# Y Gweinidog Addysg

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55427

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd a fu yng ngweithgareddau ysgolion yr wythnos diwethaf?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ55407

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg i blant gweithwyr allweddol?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ55422

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru i ehangu’r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Merthyr Tudful?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

4 OQ55397

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailddechrau addysg amser llawn ym mis Medi?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

5 OQ55411

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint dosbarthiadau mewn ysgolion yng Nghymru?

**Hefin David** *Caerffili*

6 OQ55430

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cyfarpar diogelu personol mewn ysgolion?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

7 OQ55418

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth addysgol i blant nad ydynt wedi dychwelyd i'r ysgol?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

8 OQ55420

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i drawsnewid y broses o ddarparu addysg mewn meysydd chwarae ysgolion a lleoliadau awyr agored eraill yng ngoleuni'r pandemig Covid-19?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ55417

**(w)**

Sut mae'r bil cwricwlwm yn bwriadu cynyddu'r nifer fydd yn dysgu Cymraeg er mwyn cyflawni’r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

**David Melding** *Canol De Cymru*

10 OQ55412

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i alwadau gan Barnardo's Cymru ac Action for Children Cymru am gymorth iechyd meddwl a chymorth emosiynol ychwanegol i blant sy'n agored i niwed wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

11 OQ55404

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr yn Sir Benfro dros y 12 mis nesaf?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OQ55416

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod cynnwys cwricwlwm arfaethedig Cymru yn wleidyddol niwtral?

# Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

1 OQ55426

**(e)**

Pryd y bydd GIG Cymru yn gweithredu fel yr oedd cyn y pandemig Covid-19?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

2 OQ55406

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith Covid-19 ar wasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru nad ydynt yn gysylltiedig â Covid-19?

**David Rees** *Aberafan*

3 OQ55425

**(e)**

Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i fyrddau iechyd i ailddechrau triniaethau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid-19 a thriniaethau nad ydynt yn peryglu bywyd?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

4 OQ55428

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithlonrwydd y drefn tracio ac amddiffyn yn y gogledd?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ55415

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brofion coronafeirws yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ55429

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun taliadau arbennig y gweithlu gofal cymdeithasol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

7 OQ55405

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?

**Hefin David** *Caerffili*

8 OQ55431

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth gofal plant am ddim, yng ngoleuni'r ffaith bod y cyfyngaidau symud yn sgil Covid-19 yn parhau i gael eu llacio yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

9 OQ55400

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ynghylch datblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg yn y dyfodol yn dilyn yr adroddiad i'r bwrdd iechyd ynghylch gofal brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

10 OQ55413

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymchwil i Covid-19?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ55402

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gefnogi pobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain yn ystod y pandemig?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

12 OQ55401

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau'r GIG yng ngogledd Cymru?

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd *(yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Pontio Ewropeaidd)* (45 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020
- Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
    - Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

  - Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020 (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya yng Nghymru (60 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 18.10: Swyddogaethau Pwyllgor yn Ymwneud â Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Y Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor y Llywydd (5 munud)
- Dadl y Pwyllgor Cyllid - Blaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, yn sgil Covid 19 (60 munud)
- Dadl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Effaith Covid-19 ar Blant a Phobl Ifanc (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 16 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud) – *Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau*
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**Dydd Mercher 23 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd – yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol" (30 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (45 munud)
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 (15 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)